COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30y.h. NOS IAU, HYDREF 4ydd YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0110/18 Presennol

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W Roberts, Cynghorwyr Dewi O. Jones, Mici Plwm, Dr I. Edgar,

H. Underwood, A. Williams, D. Bullard, E. Gruffydd, E.J. Hughes, M. Sol Owen, Ff. Adams, Michael Parry, Parch Ioan Gruffydd

……..

Cof; - 0210/18 Ymddiheuriadau
Cynghorwyr Elin Hywel, Henry Rees Williams

……
Cof; - 0310/18 Datgan Diddordeb

Cyng. Dylan Bullard Eitem 21 – Gŵyl Fwyd Pwllheli

……

Cof; - 0410/18 (trosglwyddiad o rhif 6)
Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli ;- Adroddiad gan Sion Bryn Roberts o adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd.

System newydd Clybiau Ieuenctid yw cael i weithwyr fynd i wahanol ardaloedd mewn ymdrech i ddenu pobl ifainc i gymryd rhan mewn gweithgareddau o`i dewis. Angen cael adroddiad gan Gwynedd ar eu ymholiadau gyda phobl ifainc y Dref.

Penderfyniad-trafodaeth ar ddyfodol Clwb Ieuenctid i`r dref. Rhaglen Cyngor Tachwedd

…….

Cof; - 0510/18 Gair gan y Maer
Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion

……..
Cof; - 0610/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresennol
Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

……
Cof; - 0710/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff

a) Trosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc y Cyngor Tref Pwllheli yn y cyfnod hyd gyfarfod llawn y Cyngor ym mis Tachwedd i'r Cyng. Michael Sol Owen a'r Cyng. Elin Hywel.
b) Clerc presennol dal yn wael. Penodwyd Eric Price fel dirprwy clerc y Cyngor ar 28 Medi. Rhoddwyd cyfweliad i dri ymgeisydd. Bydd rhaglen o hyfforddiant yn cael ei lunio ar gyfer y swydd.

c) Gweinyddu:- archwilio celfi, comisiynu archwiliad strwythurol o'r adeilad. Rhestr o`r rhai sydd a goriad :- Maer, Michael Sol Owen, M. Parry, A Williams, Henry R Williams, Parch I. Gruffydd, E.J Hughes
E. Price. Rhestr o rai sydd yn arwyddo sieciau; M.S. Owen, E. Roberts, A. Williams, M Parry. Parch I. Gruffydd, E.J Hughes
d) Trafodaeth ar newid y drefn taliadau i fancio electronig

…….

Cof; - 0810/18 Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Medi, 2018
Cadarnhawyd cofnodion mis Medi fel rhai a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

…….
Cof; - 0910/18 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth

Penderfyniad ; - Gofyn i Cyng. Hefin Underwood am adroddiad pellach ar doiledau yn Cyngor, Mis Tachwedd.

……

Cof; - 1010/18 Cynllunio
C18/0729/45/LL
Newid defnydd uned fasnachol 37 Ffordd Caerdydd
Cytuno

.....

Cof; - 1110/18
Derbyn adroddiad 'Summary of Receipts & Payments' amcangyfrif o £10,000-£20,000 o arian fydd ar gael i wahanol weithgareddau/prosiectau yn y Cyngor. Angen syniadau gan y Cynghorwyr erbyn y Cyngor Mis Tachwedd.

.....

Cof- 1210/18
Y Tram,
Adroddiad gan Cyng. Michael Sol Owen:- Y gwaith paentio bron wedi ei gwblhau. Bu cyfarfod gyda Phlas Glyn y Weddw (27-09-18) hefo`r Maer, Cyng. E. Gruffydd a Cyng. M.S. Owen parthed y cam nesa, sef gorchudd ar gyfer y Tram

.....

Cof;- 1310/18.
Noson Dathlu ar gyfer y Prifardd Gruffudd Eifion Owen yn ennill y Gadair yn Eisteddfod 2018.Nos Wener 26 Hydref 18:30. Cyflwyniad gan y Cyngor, lluniaeth i ddilyn. Gwahoddiadau yn mynd allan. Angen ymateb cyn 20fed Hydref.

.....

Cof; - 1410/18
Digwyddiadau Wardeniaid Llifogydd
Adroddiad gan Cyng. Michael Parry- mynychu cyfarfod ym Mangor i drafod materion yswiriant a threfn.

.....

Cof; - 1510/18
Hesg- O Gwmpas y Dref (tymor hir) a llwybrau newydd
Cyng. Elfed Gruffydd
Penderfyniad ;- Gwahoddiad i Gymorth Naturiol Cymru mis Tachwedd, i esbonio eu cynlluniau tymor hir ar gyfer yr Harbwr Bach a llecynau eraill sydd yn eu meddiant. Hefyd sylwadau ar Japanese Knot Weed. (e-bost i CNC 10/9/18 yn ymestyn gwahoddiad iddynt ar gyfer Cyngor 1af Tachwedd 18:30).

.....

Cof; - 1610/18
Yr hen turnstile Canolfan Hamdden -Llythyr yn cynnig cyfraniad 50% o'r gost sef £950, gydag amodau. Sef:- lleoliad, a phlac yn dangos cyfraniad y Cyngor Tref. Llythyr 11/9/18 i C. F. yn datgan y penderfyniad- dim ymateb.
.....

Cof; - 1710/18
Marchnad Sul
Cyng Elfed Gruffydd, **Penderfyniad-** Gofyn am y sefyllfa diweddara parthed stondinwyr lleol
.....

Cof; - 1810/18
Sefyllfa Traffic ym Mhwllheli- adroddiad gan y Cyng E.J. Hughes (copi or adroddiad ar ffeil Stryd Moch)

a) Gofyn i Gyngor Gwynedd am wybodaeth cynllun 2012 sydd yn cyfeirio at strwythyr traffic ym Mwllheli. (Richard Broun associates)
b) Ail edrych ar "power point" Stryd Moch yn y Cyngor Mis Tachwedd
c) Llythyru ar wellianau llinellau wen Penlon Llyn (lodge a gwaelod stryd, Gorsaf trydan bychan), Pentre` Poeth, Kingshead, cylchdro Llon Caerdydd, Cyffordd Lon Dywod a Stryd Fawr

.....

Cof; - 1910/18
Safle Bysus
Adroddiad gan Cyng. Ffiona Adams ;- sefyllfa diweddara. Cyfraniad gan Drechu Trosedd (Heddlu) o £750 i wario ar wellianau o gwmpas y safle bysiau yn y Maes

……

Cof; - 2010/18

Gwyl Fwyd Pwllheli.

Cais gan Cyng. D. Bullard am £1,000 o'r flwyddyn 2018 – 19, a £1,000 o'r flwyddyn 2019 – 20.

Penderfyniad- Y Cyngor yn cefnogi`r Wyl. Cyfraniad cyntaf o £1,000 yw talu o`r flwyddyn ariannol bresennol. Yr ail gyfraniad i ystyried yn y flwyddyn ariannol nesaf.

.....

Cof; - 2110/18 Derbyniadau

250.00	Rhent Market Hall	CR
250.00	Rhent Adams	CR
2.47	Llog NS Bond	CR
2,225.08	HMRC ad-daliad VAT	CR
36,500	Gwynedd ail rhan y precept	CR
5.52	Llog Banc	CR

Cof; - 2210/18

23. Taliadau

1,431.92	Costau gweinyddol rhedeg y siambr - Medi	sieciau
333.42	HMRC – NI PAYE	203040
500	Clwb Rygbi Pwllheli – cyfraniad a137	203041
5,000	Trosglwyddo y Cyfrif y Siambr	203043
380	Tyddyn Sachau - Blodau	203044
18	Huws Gray – set toiled newydd Cyfrif siambr	100029
1,110	Atkins Groundworks – cynnal llwybrau	203045
89.99	N.Wales Domestic Appliance Centre – Hoover newydd	203046

Daeth y Cyngor i ben am 8:45 y.h

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 1af Tachwedd

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 23 Hydref, 2018.